



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# Mudo yng Nghymru

## Effaith newidiadau polisi ôl-Brexit

**Jonathan Portes a Giuseppe Forte**

Coleg y Brenin Llundain ac Adran Economeg,  
Prifysgol Rhydychen  
Chwefror 2019

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol cydnerth ynghylch beth sy'n gweithio, a cymhwyso hynny. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi er mwyn cyfod a pharatoi dystiolaeth sy'n bodoli a chanfod bylchau ble mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr er mwyn datblygu syniadau ffres ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, defnyddio a chael mynediad at dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol all helpu i hysbysu a gwella polisi.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynhyrchu, gwerthuso, cymhwyso a chael mynediad at dystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella dealltwriaeth o sut y gall dystiolaeth hysbysu a gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i greu capasiti ymysg ymchwilwyr i ymgysylltu ag ymchwil dylanwadol sydd yn berthnasol i bolisi.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi ei lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sydd yn amcanu at feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesi** yn y DU, sy'n sefydliad newydd sydd yn dod â saith cyngor ymchwil y DU, Arloesi yn y DU ac Ymchwil Lloegr at ei gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sydd yn gyfrifol am feysydd allweddol yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>4</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>Adroddiad MAC a'r Papur Gwyn ar Fewnfudo</b>	<b>6</b>
<b>Amcangyfrif yr effeithiau cyffredinol</b>	<b>9</b>
<b>Cymhariaeth â model y Swyddfa Gartref</b>	<b>16</b>
<b>Effeithiau ar Sectorau</b>	<b>16</b>
<b>Effaith trothwyon cyflogau amgen</b>	<b>19</b>
<b>Fisâu Gweithwyr Dros Dro</b>	<b>22</b>
<b>Gwahaniaethau Rhanbarthol</b>	<b>22</b>
<b>Casgliadau a goblygiadau polisi</b>	<b>23</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>25</b>

# Crynodeb

- Ym mis Rhagfyr 2018 bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyn ar Fewnfudo oedd yn nodi polisi ymfudo ar ôl Brexit, ac roedd yn ymgorffori nifer o argymhellion o adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor Cynghori Mudo. Mae'r papur hwn yn trafod effeithiau tebygol y polisïau yma ar economi Cymru.
- Er y bydd y gostyngiad cyfrannol mewn ymfudo yn uwch yng Nghymru nag yn y DU, oherwydd bod Cymru yn llai dibynnol ar ymfudo na'r DU gyfan, at ei gilydd bydd yr effaith ar Gymru yn llai. Rydym yn amcangyfrif y bydd yr ergyd i GDP rhwng tua 1 a 1.5% o GDP dros gyfnod o ddeng mlynedd, o'i gymharu â 1.5 i 2% ar gyfer y DU gyfan.
- Bydd y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn ar Fewnfudo yn rhoi terfyn ar ryddid i symud. Bydd raid i ymfudwyr o'r EU a thu allan sydd yn dymuno dod i'r DU i weithio wneud cais fel arfer drwy'r llwybr gweithwyr sgiliedig Haen 2, fydd yn cael ei ryddfrydoli a'i symleiddio; ond yn gyffredinol ni fydd rhai sydd yn ennill llai na £30,000 (fydd yn destun ymgynghoriad) yn gymwys.
- Yn ddibynnol ar y manylion ar ôl yr ymgynghoriad, effaith y cynigion yma fydd lleihau'n sylweddol nifer y bobl ar gyflogau isel fydd yn mudo o'r UE i'r DU; lleihau niferoedd y bobl ar gyflogau canolig ac uchel o'r UE, ond nid i'r un graddau, a chynyddu rhywfaint ar y mudo o du allan i'r UE.
- Byddai'r newidiadau nid yn unig yn effeithio ar weithwyr "sgiliau isel" a'u cyflogwyr; byddent yn effeithio hefyd ar rai â sgiliau canolradd, yn arbennig ym maes gweithgynhyrchu, yn ogystal â'r sector gofal. Bydd yr effaith ar y sectorau addysg ac iechyd yn dibynnu ar sut fydd y system newydd yn gweithredu ar gyfer gweithwyr sgiliedig ac atyniad ehangach y DU fel cyrchfan.
- Nid oes llawer o achos dros wahaniaethu'r polisi mudo rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae lefelau cyflogau, ac felly cyfran y mewnfudwyr y mae'n debygol yr effeithir arnynt, yn ogystal â'r sectorau a'r galwedigaethau sydd yn wynebu'r risg mwyaf, yr un fath yng Nghymru a gweddill y DU y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr.
- Dylai Llywodraeth Cymru a busnesau roi blaenoriaeth i sicrhau trothwy cyflog sydd yn llawer is na £30,000, a byddai hynny yn lliniaru ychydig ar yr effeithiau, ac mae yna gefnogaeth eang i hynny, gan sicrhau hefyd bod y system newydd yn hyblyg ac mor hawdd i'w defnyddio â phosibl.

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno gyda'r UE27 ar destun Cytundeb Ymadael a Datganiad Gwleidyddol sydd yn ymwneud ag ymadawiad y DU o'r UE. Dan y Cytundeb Ymadael bydd rhyddid i symud yn parhau yn ystod y cyfnod pontio, fydd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2020 (er y gellir ymestyn hynny, gyda chytundeb y ddwy ochr, am un neu ddwy flynedd). Nid yw'r Cytundeb Ymadael, er ei fod yn cynnwys darpariaethau helaeth mewn perthynas â dinasyddion yr UE sydd ar hyn o bryd yn byw yn y DU (a Phrydeiniwr sydd yn byw mewn mannau eraill yn yr UE), yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â pholisi mewnfudo'r DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio, er ei fod yn cadarnhau y bydd yr Ardal Deithio Gyffredin rhwng y DU ac Iwerddon yn parhau fel ag y mae.

Mae'r Datganiad Gwleidyddol, sydd yn darparu amlinelliad (lefel uchel nad yw'n rhwymedig) o'r berthynas i'r dyfodol (hynny yw, ar ôl diwedd y cyfnod pontio) yn nodi'n glir y bydd y DU yn rhoi terfyn ar ryddid pobl i symud. Mae hefyd yn cyfeirio at ymweliadau a fisâu busnes tymor byr, ond er bod y DU (ym Mhapur Gwyn Chequers) a'r UE27 wedi cyfeirio'n flaenorol at "ddarpariaethau uchelgeisiol" mewn perthynas â symudedd llafur, nid oes yna unrhyw reswm ar hyn o bryd i gredu bod hynny yn golygu unrhyw beth mwy uchelgeisiol na'r hyn sy'n gynwysedig yn y fargen Canada-UE, sydd yn effeithio ychydig iawn neu ddim o gwbl ar bolisi mewnfudo.

Mae hynny yn awgrymu, os caiff y Cytundeb Ymadael ei basio, y bydd rhyddid pobl i symud gyda'r UE yn dod i ben, a bydd y DU i raddau helaeth yn rhydd i bennu ei pholisi mewnfudo ei hun ar ddiwedd y cyfnod pontio, gydag ychydig iawn o gyfyngiadau, os o gwbl, o unrhyw gytundebau gyda'r UE; ond, wrth gwrs, gallai hynny newid os bydd yna newid sylweddol i ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at Brexit a/neu i'r trafodaethau ynghylch y berthynas i'r dyfodol. A thybio y bydd polisi Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn fras fel ag y mae ar hyn o bryd, pwrpas y papur hwn yw trafod y newidiadau tebygol i bolisi mewnfudo allai ddeillio o hynny, ac effeithiau economaidd newidiadau o'r fath ar Gymru. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol a wnaethpwyd gan awduron sydd wedi ymdrin ag effaith newidiadau polisi mewnfudo ar ôl Brexit (Portes a Forte, 2018).

# Adroddiad MAC a'r Papur Gwyn ar Fewnfudo

Bu i'r Pwyllgor Cynghori Mudo (MAC) yn ei adroddiad ar effaith mudo EEA a gyhoeddwyd ym Medi, wneud nifer o argymhellion mewn perthynas â pholisi mewnfudo ôl-Brexit. Bu i Lywodraeth y DU ymateb yn gadarnhaol i adroddiad MAC ac ar Ragfyr 19, 2018 cyhoeddodd Bapur Gwyn ar bolisi mewnfudo i'r dyfodol. Mae'r Papur Gwyn yn ymgorffori prif argymhellion y MAC:

- a) Oni bai bod cytundeb masnachu gyda'r UE yn y dyfodol yn darparu fel arall, ni ddylid rhoi "ffafriaeth Ewropeaidd" i ddinasyddion yr UE neu EEA sydd yn ceisio symud i'r DU at ddibenion gwaith ar ôl Brexit. Mewn geiriau eraill, ar ôl diwedd rhyddid i symud, ni ddylid cael unrhyw sefyllfa dros dro pan fyddai dinasyddion yr UE neu EEA yn ei chael hi'n haws symud i'r DU na phobl o du allan i'r UE.
- b) Felly byddai'n rhaid i ddinasyddion yr UE/EEA wneud cais am ganiatâd i fyw a gweithio yn y DU yn yr un modd ag y mae dinasyddion o du allan i'r UE yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn ymarferol, yn achos y rhan fwyaf o'r rhai fydd yn ceisio symud yma i weithio, bydd hynny yn golygu gwneud cais am fisa Haen 2 ("gweithiwr sgiliedig"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd fodloni nifer o feini prawf (yn gysylltiedig, yn ddibynnol ar y swydd, â chyflog, galwedigaeth, lefel sgil a diffyg argaeledd gweithwyr yn y DU). Mae amrywiol ffioedd a chostau hefyd yn daladwy.
- c) Mae'r MAC y argymell y dylid cadw'r trothwy cyflog presennol o £30,000 ar gyfer fisâu Haen 2. Ond, er bod y Papur Gwyn yn nodi hynny fel man cychwyn, mae'n benodol ddarostyngedig i ymgynghoriad, ac mae busnesau (a rhai Gweinidogion Cabinet yn breifat) wedi dadlau o blaid trothwy is.
- d) Bu i'r adroddiad MAC hefyd argymell y dylid rhyddfrydoli a symleiddio'r llwybr fisa Haen 2 mewn nifer o ffyrdd, ac mae'r Papur Gwyn at ei gilydd yn derbyn yr argymhellion hyn. Yn benodol, argymhellodd y dylai'r "cap" presennol ar nifer y fisâu Haen 2 gael ei ddileu, y dylai'r Prawf Marchnad Lafur Breswyl <sup>1</sup> gael ei ddiddymu, ac y dylid gostwng y lefel sgiliau gofynnol (fel y byddai swyddi fyddai angen sgiliau lefel A ac uwch yn gymwys yn gyffredinol, cyn belled ag y bodlonir y trothwy cyflog). Er hynny, byddai gwneud cais am fisa Haen 2 yn dal yn golygu costau sylweddol i

---

<sup>1</sup> Mae hynny yn golygu y bydd angen hysbysebu y rhan fwyaf o swyddi yn ddomestig cyn y gellir rhoi fisa Haen 2 i weithiwr o du allan i'r EEA.

gyflogwyr a mudwyr (yn cynnwys y gost Sgiliau Mewnfudo <sup>2</sup> a'r gost GIG<sup>3</sup>) a chwblhau tasgau gweinyddol niferus.

- e) Byddai'r Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL), sydd yn nodi swyddi pryd y gellid rhoi fisa Haen 2 yn gymharol hawdd hyd yn oed os na fodlonir meini prawf eraill (yn arbennig y trothwy cyflog), yn parhau, ac mae'r Papur Gwyn yn benodol yn cyfeirio at y posibilrwydd o ymestyn y trefniadau presennol ar gyfer Yr Alban, sydd â'i SOL ei hun, i Gymru. Nid yw'n eglur sut y byddai'r SOL yn cael ei weithredu'n ymarferol o dan y system newydd. Os gweithredir y newidiadau eraill - diddymu'r cap, y Prawf Marchnad Lafur Breswyl, a gostwng y lefel sgil ofynnol - gellid dadlau y byddai'r SOL yn ddiangen i raddau helaeth ac eithrio mewn perthynas â'r trothwy cyflog. Nid yw'n eglur a fyddai'r MAC yn ystyried ymestyn yr SOL i alwedigaethau megis, er enghraifft, gweithwyr gofal cymdeithasol, ble byddai'r cyflogau a'r lefelau sgil/cymwysterau gofynnol yn is na'r trothwyon newydd.
- f) Hefyd, mae'r Papur Gwyn yn cynnig cyflwyno fisa gwaith dros dro i fudwyr sydd yn ennill llai na'r cap cyflog o wledydd "risg isel" (hynny yw, y gwledydd hynny yr ystyrir nad yw eu dinasyddion yn debygol o aros yn hirach nag y dylent). Byddai hynny yn ddilys am flwyddyn, ac ar ddiwedd hynny byddai'n rhaid i'r deiliad adael y DU am o leiaf flwyddyn. Ychydig iawn o fanylion sydd yn y Papur Gwyn am sut y byddai hynny yn cael ei roi ar waith yn ymarferol.

Beth fyddai hynny yn ei olygu yn ymarferol i wahanol grwpiau o fewnfudwyr posibl? At y dibenion hyn, gallwn rannu mudwyr cysylltiedig â gwaith i bedwar categori, a disgrifio'n fras sut y bydd hyn yn effeithio arnynt:

- a) Mudwyr o'r UE sydd yn ennill llai na £30,000 (gan dybio mai dyma fydd y trothwy yn y pen draw - gweler y drafodaeth isod). Mae'r rhain ar hyn o bryd yn elwa o ryddid i symud. O dan y system arfaethedig, ni fyddent yn gallu cael fisa Haen 2 (wrth gwrs byddai rhai yn dal i allu symud i'r DU drwy lwybrau eraill sydd yn caniatáu gwaith, er enghraifft fisâu teulu/gŵr neu wraig). Byddent hefyd yn gymwys i gael fisâu newydd dros dro. Dyma'r grŵp y byddai hyn i gyd yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt.
- b) Mudwyr o'r UE sydd yn ennill dros £30,000. Eto, mae'r rhain ar hyn o bryd yn elwa ar ryddid i symud. Yn y dyfodol, mewn egwyddor byddai'r rhain yn y rhan fwyaf o achosion yn gallu sicrhau fisa gwaith. Ond, byddent yn wynebu rhwystrau newydd sylweddol; byddai'n rhaid iddynt gael cynnig am swydd, byddai'n rhaid iddyn nhw neu eu cyflogwyr dalu amrywiol ffioedd a chostau, ac mae'r broses fiwrocraidd yn eithriadol feichus. Hefyd, yn ogystal â'r costau yma, mae yna resymau eraill pam y byddai'n llai deniadol byw yn y DU gyda fisa Haen 2 na thrwy ryddid i symud; mae'r

---

<sup>2</sup> Mae hon yn gost o £1000/flwyddyn yn gyffredinol, sydd yn daladwy gan gyflogwr pob gweithiwr â fisa Haen 2.

<sup>3</sup> Mae hon yn gost o £400/flwyddyn yn gyffredinol i weithwyr â fisâu Haen 2; mae hefyd yn gymwys i fyfyrwyr a mudwyr eraill ar gyfradd is.

cyntaf yn cynnig llai o hawliau, yn arbennig mewn perthynas ag aelodau eraill o'r teulu a mynediad at wasanaethau cyhoeddus a llesiant, ac mae'n golygu wynebu mwy o rwystrau hefyd (yn benodol, trothwy cyflog uwch, sef £35,000 ar hyn o bryd) petaent yn ceisio gwneud cais i setlo'n barhaol. Felly bydd y grŵp yma yn wynebu cyfundrefn fudo llawer mwy cyfyngol, anghymelliadau ariannol newydd a chostau cysylltiedig â chyfleoedd, a statws llai apelgar yn y DU ar ôl cyrraedd.

- c) Mudwyr o du allan i'r UE sydd yn ennill llai na £30,000. Ni all y grŵp yma, at ei gilydd, fudo at ddibenion gwaith i'r DU o dan y gyfundrefn bresennol. O dan y gyfundrefn newydd gall rhai o wledydd "risg isel" wneud cais am y fisa gwaith dros dro newydd. Y tu hwnt i hynny ni fydd yna effeithiau uniongyrchol sylweddol newydd ar y grŵp yma.
- d) Mudwyr o du allan i'r UE sydd yn ennill mwy na £30,000. Fel y nodir uchod, mae'r Papur Gwyn yn nodi nifer o fesurau fydd yn arwain at ryddfrydoli mudo ar gyfer y grŵp yma. Yn benodol, bydd diddymu'r cwota presennol o 20,700 ar gyfer fisâu Haen 2 yn golygu na fydd yna uchafswm niferoedd (er mai dim ond am gyfnodau cyfyngedig y mae'r cyfyngiad yma wedi bod yn rhwymedig yn ystod y saith mlynedd diwethaf) tra bydd y gostyngiad yn y lefel sgil isaf yn achosi effaith hefyd. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi mesurau i liflinio a symleiddio'r system; mewn egwyddor gallai hynny achosi effaith arwyddocaol, ond bydd hynny yn amlwg yn dibynnu ar sut y'i gweithredir.



# Amcangyfrif yr effeithiau cyffredinol

Er mwyn asesu effeithiau tebygol y newidiadau hyn ar lif mudo i'r DU yn ei chyfanrwydd ac i Gymru, rydym yn dechrau drwy amcangyfrif nifer y gweithwyr llawn amser sydd ar hyn o bryd yn byw yma sydd yn perthyn i'r pum categori (ganwyd yn y DU, ganwyd yn yr UE ac yn ennill llai neu fwy na £30,000, a ganwyd yng ngweddill y byd (ROW) sydd yn ennill llai neu fwy na £30,000). Rydym yn cyfyngu'r dadansoddiad mewn perthynas â hyn, a'r hyn sydd yn dilyn, i weithwyr llawn amser, er mwyn sicrhau ein bod yn dal mudo sydd yn bennaf gysylltiedig â gwaith yn gyffredinol, ac nid y mathau eraill. Mae hynny yn golygu bod ein canlyniadau yn dangos niferoedd sydd ychydig yn is, a chyflogau cyfartalog uwch na dadansoddiadau sydd yn edrych ar yr holl fudwyr (fel yn y Papur Gwyn).<sup>4</sup> Dangosir y canlyniadau yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Amcangyfrif o nifer y mudwyr sydd yn gweithio yn y DU a Chymru**

		Nifer	% Cyfanswm	Cyflog Blynyddol Cymedrig (£)	Canolrif Cyflog Blynyddol (£)
<b>Y Deyrnas Unedig</b>					
Hyd 2017 - Medi 2018					
	Ganwyd yn y DU	16,860,748	82.6	31,661.6	26,728
<i>Cyrraedd</i>	UE <£30k	1,073,163	5.3	19,470.7	19,188
<i>unrhyw</i>	UE >= £30k	578,124	2.8	49,915	42,016
<i>flwyddyn</i>	ROW <£30k	997,070	4.9	19,655.2	19,916
	ROW >=£30k	904,824	4.4	52,287.3	44,980
	<b>Cyfanswm</b>	<b>20,413,929</b>	<b>100</b>	<b>31,865.4</b>	<b>26,520</b>
<b>Cymru</b>					
Hyd 2017 - Medi 2018					
	Ganwyd yn y DU	834,592	92.5	27,833.6	24,284
<i>Cyrraedd</i>	UE <£30k	32,195	3.6	16,387	18,460
<i>unrhyw</i>	UE >= £30k	16,967	1.9	42,883.1	40,092
<i>flwyddyn</i>	ROW <£30k	11,207	1.2	19,469.1	21,008
	ROW >=£30k	7,491	0.8	48,434.5	4,2016
	<b>Cyfanswm</b>	<b>902,451</b>	<b>100</b>	<b>27,775.3</b>	<b>2,4024</b>


<sup>4</sup> Nid oes dull "cywir" yma. Bydd rhai, ond nid yr holl fudwyr nad ydynt yn gweithio'n llawn amser, wedi dod am resymau gwaith yn bennaf; eraill drwy lwybrau teulu a llwybrau eraill. Nid yw'r data yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng y grwpiau yma.

Data o'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r ffigyrau ond yn gymwys i weithwyr mewn cyflogaeth llawn amser â chyflog cadarnhaol. Mae pryderon am faint samplau yn achosi i ni gyfuno'r 4 ton LFS ac ystyried yr holl flynyddoedd cyrraedd gyda'i gilydd.

At ei gilydd, mae mudwyr yn cyfateb i tua 17.4% o'r gweithwyr llawn amser yn y DU, ond dim ond 7.5% o'r gweithwyr llawn amser yng Nghymru. Ond, mae mudwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn perthyn i'r categori y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio fwyaf arno - gweithwyr o'r UE sydd yn ennill llai na £30,000, na mudwyr mewn mannau eraill yn y DU. Mae bron i hanner y gweithwyr llawn amser o du allan i'r DU yng Nghymru yn perthyn i'r categori yma, tra bod llai na thraean o weithwyr o du allan i'r DU mewn rhannau eraill o wledydd Prydain yn perthyn i'r categori yma. Yn fras, mae hynny yn golygu, er y byddai Cymru yn dioddef llai o effaith economaidd na gweddill y DU yn ei chyfanrwydd - oherwydd ei bod yn llai dibynnol ar weithwyr mudol at ei gilydd - bydd yna fwy o effaith gyfrannol ar fudo i Gymru nag ar fudo i'r DU yn gyffredinol.

Mae'r canlyniadau yma yn gyson ag amcangyfrifon y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn, a ailgynhyrchwyd isod, sydd yn dangos y bydd yna effaith ar gyfran uwch o weithwyr o'r UE yng Nghymru nag yn y DU yn ei chyfanrwydd. Ond noder, oherwydd bod dadansoddiad y Swyddfa Gartref yn edrych ar bob gweithiwr, nid rhai llawn amser yn unig, mae'r cyfrannau ychydig yn uwch, er bod y casgliadau at ei gilydd yr un fath. Rydym yn credu bod ein dadansoddiad ni yn debygol o fod yn well adlewyrchiad o'r gwir effeithiau, oherwydd bydd y rhan fwyaf o bobl a ddaw yn bennaf i weithio yn chwilio am gyflogaeth llawn amser i ddechrau (sydd yn wahanol i fudwyr teulu a myfyrwyr allai fod yn chwilio am gyflogaeth ran amser).

**Ffigwr 1: Cyfran y mewnlifoedd o weithwyr EEA hirdymor rhagamcanol i ranbarthau Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig y byddai RQF 3 a throthwy £30,000 yn effeithio arnynt.**



(Llywodraeth EM, 2018)

Felly mae asesu'r effeithiau economaidd yn dibynnu ar faint effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar grwpiau a), b) a d) uchod. Mae yna dystiolaeth sylweddol bod rhyddid i symud wedi arwain at gynnydd mawr iawn mewn llifoedd mudo o'r UE i'r DU, a bod y cynnydd hwnnw yn tua 500%. Hefyd, ers y refferendwm mae mudo net o'r UE wedi haneru, ac mae'r mudo net at ddibenion gwaith wedi gostwng hyd yn oed mwy, er nad oes dim wedi newid hyd yma yn ymarferol. Er nad yw hynny yn ganlyniad i bleidlais Brexit yn unig, mae'n amlwg bod hynny yn ffactor arwyddocaol, oherwydd nad yw mudo o du allan i'r UE wedi newid llawer.

Felly, mae diweddu rhyddid i symud yn debygol o arwain at ostyngiad mawr. At ddibenion y dadansoddiad yma, rydym yn gwneud nifer o dybiaethau arddulliol:

- I ddechrau, rydym yn rhagamcanu dim newid i'r mudo net yn y polisi. Rydym yn tybio y byddai llifoedd mudo net ym mhob categori yn ystod y deng mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod pontio, yn ôl eu trefn, yn 60% o stoc presennol mudwyr o'r UE ar gyflog is, a 40% ar gyfer y rhai ar gyflog uwch; a 25% o'r stoc presennol ar gyfer mudwyr o du allan i'r UE. Mae hynny'n fras yn adlewyrchu cyfran y cyfryw fudwyr a gyrhaeddodd y

DU yn ystod y degawd a fu (sydd yn ei dro yn adlewyrchu'r ffaith bod y mudo mwy diweddar wedi bod yn weithwyr o'r UE, yn benodol ar gyfer swyddi â chyflogau is);

- Mae'r polisiau a amlinellir yn y Papur Gwyn yn arwain at leihad, o'i gymharu â'r senario "dim newid polisi" yma, o 75% yn y mudo net ar gyfer y mudwyr o'r UE ar gyflogau is, a 50% ar gyfer y rhai sydd yn ennill dros £30,000. Ar gyfer mudwyr o du allan i'r UE sydd yn ennill mwy na £30,000 rydym yn tybio y bydd cyfundrefn ychydig mwy rhyddfrydoli yn arwain at gynydd o 20%. Rydym yn tybio dim newid ar gyfer mudwyr o du allan i'r UE sydd yn ennill llai na £30,000.

O hyn, rydym yn gallu amcangyfrif yr effaith ar niferoedd y mudwyr yn y gweithlu o ganlyniad i'r newid polisi arfaethedig, dros ddeng mlynedd, o'i gymharu â gwrthffactor o bolisi presennol (yn cynnwys rhyddid i symud). Mae'r fethodoleg yma yn ei hanfod yn ystyried mudo yn ôl neu fudo ymlaen yn achos rhai a ddaw yn dyfodol - rydym yn edrych ar effaith polisiau amgen ar newidiadau yn y gweithlu mudo sydd yn byw yma dros gyfnod o ddeng mlynedd. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod:

**Tabl 2: Effeithiau'r newid polisi arfaethedig ar lifoedd mudo net yn y dyfodol dros gyfnod o ddeng mlynedd, trothwy cyflog £30,000.**

	Mudo net (dim newid polisi)	Newid dros 10 mlynedd (%)	Newid dros 10 mlynedd (Niferoedd)	Canolrif Cyflog Blynyddol (£)
<b>Y Deyrnas Unedig</b>				
UE <£30k	643,897.8	-75%	-482,923	19,188
UE >= £30k	231,249.6	-50%	-115,625	42,016
ROW <£30k	249,267.5	0	0	19,916
ROW >=£30k	226,206	20%	45,241	44,980
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,350,620.9</b>	<b>-41%</b>	<b>-553,307</b>	

## Cymru

UE <£30k	19,317	-75%	-14,488	18,460
UE >= £30k	6,786.8	-50%	-3,393	40,092
ROW <£30k	2,801.75	0	0	21,008
ROW >=£30k	1,872.75	20%	375	42,016
<b>Cyfanswm</b>	<b>30,778.3</b>	<b>-57%</b>	<b>-17,507</b>	

(Arolwg o'r Llafurlu, cyfrifiadau'r awdur)

Nid ydym yn ystyried unrhyw effaith ar gyfraddau mudo'n ôl ar gyfer pobl o'r UE sydd eisoes yn byw yn y DU. Bydd gan y grŵp yma hawl i wneud cais am statws setlo o dan y Cytundeb Ymadael, ond gall rhai ddewis gadael y DU o ganlyniad i Brexit; byddai hynny yn arwain at fwy o ostyngiadau mewn mudo net. Mae'r dadansoddiad yma yn amlwg yn un bras, sydd yn adlewyrchu ansicrwydd ynghylch datblygiadau yn y dyfodol yn economïau Cymru, y DU ac Ewrop; a sut fydd y polisïau a nodir yn y Papur Gwyn (na amlinellir yn fanwl, ac sydd beth bynnag yn destun ymgynghoriad) yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Er hynny, gellir eu hystyried fel canllaw o ran maint cymharol yr effeithiau posibl. Noder, fel y cyfeirir at hynny uchod, er bod yr effaith absoliwt yn fwy ar gyfer y DU na Chymru - 2.7% o'i gymharu â 1.9% - mae'r effaith gyfrannol (o'i gymharu â'r boblogaeth fudol) yn fwy ar gyfer Cymru, sef gostyngiad o 57% mewn mudo net yn ystod y degawd nesaf o'i gymharu â 41%.

Er mwyn asesu effaith economaidd y newidiadau hyn, rydym yn mabwysiadu'r fethodoleg ganlynol. Rydym yn cyfrifo cyflog cyfartalog pob un o'r pedwar grŵp yma (a ddangosir hefyd yn y tabl). Rydym yn tybio y bydd cyfraniad pob gweithiwr unigol i GDP (mudol neu frodorol) yn gymesur â'u henillion.<sup>5</sup> Mae cyflogaeth ar hyn o bryd yn y DU yn cyfateb i tua 27.9 miliwn o swyddi llawn amser cyfatebol, tra bod y ffigwr yng Nghymru yn tua 1.2 miliwn.

Yr effaith ar weithlu'r DU yn ei chyfanrwydd fyddai gostyngiad o tua 2.5%, a byddai'r effaith ar Gymru yn ostyngiad o tua 1.5%. Petai'r holl fudwyr yn ennill cyflog cyfartalog y DU, byddai hynny yn cyfateb i ostyngiadau cyfatebol mewn GDP. Ond, oherwydd bod y gostyngiadau wedi eu canolbwyntio'n anghymesur ar y rhai ar gyflogau is, mae'r gostyngiad a awgrymir yn rhywfaint yn llai, sef tua 1.4% ac 1.1% yn ôl eu trefn.

Dyma yw effaith uniongyrchol fathemategol gostyngiad yn y gweithlu. Ond, fel yn achos masnach, mae mudo hefyd yn effeithio'n anuniongyrchol ar gynhyrchiant. Yn ei adroddiad

---

<sup>5</sup> Hynny yw, byddai gostyngiad o 1% yn y gweithlu yn golygu gostyngiad o 1% mewn GDP petai'r holl weithwyr absennol yn ennill cyflogau cyfartalog; ond petai pob un yn ennill dim ond hanner y cyflog cyfartalog, byddai'r gostyngiad yn 0.5%.

diweddar, bu i MAC gasglu bod “y llenyddiaeth a’r astudiaethau yr ydym wedi eu comisiynu yn awgrymu y bydd mewnfudo yn arwain at effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant, ond mae’r canlyniadau yn destun ansicrwydd sylweddol. Er nad yw’r dystiolaeth mewn perthynas â mudo’n gyffredinol yn gwbl derfynol, efallai nad yw’n syndod bod y dystiolaeth yn awgrymu bod mudwyr â sgiliau uchel yn achosi effaith fwy gadarnhaol”. Mewn gwirionedd, mae’r holl astudiaethau a gomisiynwyd gan MAC yn awgrymu bod mewnfudo yn achosi effaith fawr a chadarnhaol ar gynhyrchiant, a hefyd yr astudiaeth drawsffiniol fawr fwyaf diweddar, a gyhoeddwyd gan yr IMF.

Yn gydnaws â chasgliadau MAC at ei gilydd, rydym yn tybio nad yw mewnfudo gweithwyr sydd â sgiliau cymharol is yn effeithio’n uniongyrchol ar gynhyrchiant. Yn gydnaws â’r astudiaethau empirig a gyhoeddwyd, rydym yn tybio bod mewnfudo cymharol sgiliedig yn cynyddu cynhyrchiant, a bod cynnydd yn y gyfran fudo sgiliedig o un pwynt y cant yn gysylltiedig â chynnydd o 2% mewn cynhyrchiant. Mae’n ymddangos bod y tybiaethau yma yn gymharol geidwadol, o ystyried y dystiolaeth gyson o gadarnhaol ynghylch effeithiau mewnfudo ar gynhyrchiant. Ond, fel mae MAC yn ei nodi, maent yn destun lefel uchel o ansicrwydd. Yr effaith o dan y tybiaethau yma fyddai ergyd arall i GDP o tua 0.5% i’r DU gyfan ac i Gymru.

Byddai’r effaith gyfatebol ar GDP y pen yn llai, oherwydd byddai gostwng mewnfudo yn gostwng y boblogaeth hefyd. Ond, bydd hynny yn dibynnu ar faint y bydd mudo arall, nad yw’n gysylltiedig â gwaith - hynny yw, dibynyddion ac aelodau eraill teuluoedd y rhai sydd yn gweithio’n llawn amser- yn gostwng. Yn gyffredinol nid oes gan fudwyr ar gyflogau is o’r UE, sydd yn cyfateb i swp y gostyngiad, ddibynyddion nad ydynt yn gweithio pan fyddant yn cyrraedd y DU (er bod gan gyfran arwyddocaol o’r rhai sydd wedi bod yma am beth amser ddibynyddion), ond bydd rhai yn bodoli.

Gan dybio cymhareb mudwyr gweithio i ddibynyddion nad ydynt yn gweithio o 3:1, byddai’r gostyngiad yn y boblogaeth yn tua 1% ar gyfer y DU a 0.8% ar gyfer Cymru. Gan gyfuno hyn i gyd, rydym yn crynhoi’r canlyniadau yn y tabl isod:

**Tabl 3: Model o effaith newid mudo ar GDP**

		Heb gynhyrchiant	Gyda thybiaeth cynhyrchiant
<b>Y Deyrnas Unedig</b>	Effaith ar GDP	-1.40%	-1.90%
	GDP y pen	-0.40%	-0.90%
<b>Cymru</b>	Effaith ar GDP	-1.10%	-1.60%
	GDP y pen	-0.30%	-0.80%

Fel yr amlinellir uchod, mae'r canlyniadau yma yn destun nifer o gafeatau, ynghylch effaith polisi ar lif mudo, ac effaith newidiadau i lif mudo ar ddeilliannau economaidd. Ond, mae'n gyson â damcaniaeth economaidd a'r llenyddiaeth empirig y byddai polisi mudo llai agored a mwy cyfyngol, fel yn achos polisi masnachu, yn achosi effaith negyddol ar allbwn a chynhyrchiant, ac at ei gilydd mae'n ymddangos bod maint yr effeithiau hyn yn synhwyrol. Ond dylid eu hystyried fel senarios dangosol, nid fel rhagamcanion.

Bydd gostyngiad mewn mudo hefyd yn effeithio ar y sefyllfa ariannol. Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd gostyngiad o 1% mewn GDP yn yr hirdymor yn arwain at ostyngiad o tua 0.4% yng nghyfanswm refeniw y llywodraeth; ar lefel y DU byddai hynny yn cyfateb i golled refeniw o rhwng £11 biliwn a £15 biliwn; byddai'r symiau y gellid eu priodoli i Gymru yn rhwng £300 miliwn a £450 miliwn. Mae'n debygol y byddai'r effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru yn debyg i hynny, ond byddai hynny'n bennaf yn anuniongyrchol (drwy fformiwla Barnett) oherwydd bod y rhan fwyaf o'r refeniw yn cael ei gasglu'n ganolog; er y byddai yna effaith uniongyrchol gymharol fach, o ystyried bod peth refeniw treth incwm yn cael ei briodoli'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae adroddiad MAC a'r Papur Gwyn yn dadlau y bydd cyfyngu ar fudo gweithwyr sgiliau is neu gyflogau is o'r UE yn gwella gobeithion gweithwyr brodorol, yn arbennig y rhai â sgiliau is, yn benodol oherwydd y bydd hynny yn cynyddu cymhelliant gyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant a mesurau eraill i hybu cynhyrchiant. Ond, nid yw'r dystiolaeth empirig a nodir yn adroddiad MAC yn darparu llawer o gefnogaeth i'r datganiadau yma; ni fu i'r ymchwil a gomisiynwyd gan MAC ganfod unrhyw gysylltiadau amlwg rhwng mudo a hyfforddiant, a chanfuwyd un cadarnhaol rhwng mudo a cynhyrchiant, a dim llawer yn awgrymu y byddai mudo yn arwain at godiadau cyflog arwyddocaol i weithwyr ar gyflogau is. Felly, mae'n debygol y bydd canlyniadau dosraniadol gostyngiad mewn mewnfudo yn fach, er ei bod yn bosibl y bydd yna effeithiau mwy mewn rhai sectorau. Hefyd, efallai y bydd yna ganlyniadau dosraniadol negyddol os bydd y gostyngiadau i refeniw y llywodraeth yn arwain at lai o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

# Cymhariaeth â model y Swyddfa Gartref

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnwys model manwl o'r effaith ar lif mudo, ac effeithiau economaidd tebygol y newidiadau arfaethedig. Mae yna nifer o wahaniaethau rhwng model y Swyddfa Gartref a'n model ni (a baratowyd yn annibynnol, cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn). Yn benodol, mae dadansoddiad y Papur Gwyn yn edrych ar orwel pum mlynedd yn hytrach na deng mlynedd, yn defnyddio gwybodaeth mewnlif ac all-lif o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, nid yw'n cyfyngu'r dadansoddiad i weithwyr llawn amser, ac mae'n defnyddio dull swyddogaeth cynhyrchu<sup>6</sup> o darddu'r effaith ar GDP (sydd yn ei hanfod yn tybio na fydd y stoc cyfalaf yn newid), ac nid ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i unrhyw effaith anuniongyrchol ar gynhyrchiant. Nid ydynt yn modelu effeithiau ar Gymru.

Er gwaetha'r gwahaniaethau yma, mae eu canlyniadau at ei gilydd yn debyg i'n canlyniadau ni, ac yn sicr o fewn y lwfans ansicrwydd ar gyfer ymarferion modelu o'r fath. Yn benodol, maent yn darogan gostyngiad yn nifer y gweithwyr o'r UE yn y DU o rhwng 200,000 a 400,000 erbyn 2025, sydd yn gyson â'n hamcangyfrif ni o ostyngiad o tua 600,000 dros gyfnod o ddeng mlynedd. Amcangyfrifir mai'r effaith ar GDP fydd 0.4-0.9%, eto dros gyfnod o bum mlynedd, o'i gymharu a'n hamcangyfrif ni o 1.4% (heb ganiatáu am effeithiau ar gynhyrchiant) dros ddeng mlynedd. Mae hynny yn rhoi peth sicrwydd i ni bod ein hamcangyfrifon yn gredadwy yn gyffredinol ar gyfer y DU gyfan, ac i Gymru o ganlyniad i hynny.

## Effeithiau ar sectorau

Mae'r drafodaeth uchod yn canolbwyntio ar effaith facro economaidd gyffredinol gostyngiad mewn mewnffudo yn ystod y tymor canolig a'r hirdymor. Mae hynny yn awgrymu, mewn ffordd sydd yn gyson â gwaith blaenorol, y bydd yr effaith ar y DU gyfan ac ar Gymru yn negyddol ond yn gymharol fach. Ond, o ystyried y data sydd ar gael a'r dull modelu a fabwysiadwyd, gall hynny ddweud rhywfaint wrthym am yr effeithiau tymor byr, yn benodol mewn sectorau ac is-sectorau sydd yn benodol ddibynnol ar fudo o'r UE. Mae yna dystiolaeth gynyddol o brinder sgiliau a llafur mewn sectorau penodol ers y refferendwm, ac mae hynny yn rheolaidd yn cael ei briodoli i apêl is y DU i weithwyr o'r UE ers pleidlais Brexit,

---

<sup>6</sup> Hynny yw, mae'r allbwn wedi ei foddelu fel swyddogaeth gwahanol fewnbynau, yn benodol llafur a chyfalaf.



ac mae gweithgynhyrchwyr yn benodol yn adrodd am anawsterau recriwtio, yn ogystal â phrinder hysbys iawn mewn gofal cymdeithasol a nyrsio.

Er mwyn canolbwyntio yn fanylach ar sectorau allai ddiodeff yr effeithiau mwyaf yn y tymor byr, rydym yn edrych ar ddosraniad gweithwyr o'r UE ar draws sectorau ac yn ôl galwedigaethau. Mae'r tabl isod yn dangos "10 uchaf" y parau sector-galwedigaeth ar gyfer gweithwyr o'r UE yng Nghymru, sydd yn dangos nifer y gweithwyr a chanolrif lefelau cyflog. Daw'r nifer a'r safleoedd o'r Cyfrifiad, a daw'r lefelau cyflog o'r Arolwg Poblogaeth Blyneddol. Bydd y ffigyrau hyn yn tanddatgan presenoldeb gweithwyr o'r UE yn y parau sector-galwedigaeth yma, oherwydd bod y Cyfrifiad erbyn hyn yn wyth mlynedd oed, a bu mudo net sylweddol o weithwyr o'r UE ers hynny, ond maent yn rhoi rhyw ddarlun o'r effaith gymharol.

**10 uchaf parau  
Diwydiant-Galwedigaeth  
Yn ôl cyfranogiad UE  
yng Nghymru**

**Cymru**

Diwydiant	Galwedigaeth	Nifer y gweithwyr UE	Cyfrifiad		
			Cyfanswm y gweithwyr	%	Canolrif Cyflog Blynnyddol (£)
C Gweithgynhyrchu	8 Prosesu, Trin Offer a Pheirannau	4,160	89,640	4.64	22,984
I Llety a gwasanaethau bwyd	9 Galwedigaethau elfennol	3,160	76,500	4.13	13,520
G Cyfanwerthu, manwerthu, atgyweirio cerbydau	7 Gwerthiant a Galwedigaethau Gwasanaeth Cwsmeriaid	2,500	166,820	1.50	16,484
C Gweithgynhyrchu	9 Galwedigaethau elfennol	2,220	52,600	4.22	18,096
P Addysg	2 Galwedigaethau Proffesiynol	2,220	111,960	1.98	35,984
Q Iechyd a Gofal Cymdeithasol	6 Gofal, Hamdden a Galwedigaethau Gwasanaethau eraill	2,120	110,920	1.91	16,796
N Gweinyddu a Gwasanaethau Cymorth	9 Galwedigaethau elfennol	2,080	40,860	5.09	24,024
Q Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2 Galwedigaethau Proffesiynol	1,760	84,960	2.07	31,980
C Gweithgynhyrchu	5 Galwedigaethau Masnachwyr Sgilioedig	1,340	62,740	2.14	27,976

I Llety a gwasanaethau bwyd	5 Galwedigaethau Masnachwyr Sgilioedig	1,140	28,440	4.01	18,200
	<b>Cyfanswm</b>	<b>22,700</b>	<b>825,440</b>	<b>2.75</b>	<b>21,996</b>

**Tabl 4: Deg uchaf parau sector-galwedigaeth ar gyfer gweithwyr UE yng Nghymru.**

Trefn swyddi o Gyfrifiad 2011; data enillion o'r Arolwg o'r Llafurlu (holl weithwyr). Mae'r ffigyrau ond yn gymwys i weithwyr mewn cyflogaeth llawn amser â chyflog cadarnhaol. Mae pryderon am faint samplau yn achosi i ni gyfuno'r 4 ton LFS ac ystyried yr holl flynyddoedd cyrraedd. Niferoedd y cyfrifiad wedi eu pwysoli drwy luosi'r rhifau na chafod eu pwysoli â 20.

Y pwyntiau allweddol sydd yn deillio o'r dadansoddiad yma yw:

- Ychydig iawn o wahaniaeth sydd yna rhwng Cymru a gweddill y DU yn y sectorau a'r galwedigaethau sydd yn fwyaf agored i ostyngiad mewn mudo o'r UE; mae'r gorgyffwrdd rhwng rhestrau Cymru a'r DU yn sylweddol. Efalla mai'r gwahaniaeth amlycaf yw nad yw adeiladu yn ymddangos ar restr Cymru<sup>7</sup>
- Dim ond dau bâr sector-galwedigaeth - gweithwyr proffesiynol mewn addysg ac iechyd/gwaith cymdeithasol - sydd â chanolrif enillion yn uwch na £30,000 sydd yn awgrymu y byddai hanner neu ragor o'r cyfryw weithwyr yn gymwys i gael fisa Haen 2 (er na fydd nifer yn gymwys, ac efallai y bydd y rhai fydd yn gymwys yn dewis peidio â dod i'r DU pan fo rhyddid i symud yn cael ei ddisodli gan gyfundrefn fisa mwy cyfyngol).
- Ond mae'r rhan fwyaf o'r parau sector-galwedigaeth yn alwedigaethau "heb sgiliau" (hynny yw "galwedigaethau elfennol"). Mewn gwirionedd, maent wedi eu taenu dros lefelau sgiliau.
- Mae gan wyth o'r deg sector-galwedigaeth uchaf ganolrif enillion sydd yn is na'r trothwy £30,000, ac yn llawer is yn y rhan fwyaf o'r achosion. Yn achos y sectorau hynny ni fyddai mwyafrif helaeth o'r gweithwyr o'r UE yn gymwys i gael fisa Haen 2.
- Mae'n debyg mai'r sector mwyaf bregus yn y cyswllt yma fydd gweithgynhyrchu, gyda thair galwedigaeth (gweithwyr sgiliedig, gweithwyr offer a phrosesau, a gweithwyr heb sgiliau) yn y 10 uchaf, ac mae hyd yn oed y gweithwyr gweithgynhyrchu mwyaf sgiliedig yn ennill llai na £30,000. Mae'n amlwg bod gweithwyr o'r UE wedi eu taenu ar draws galwedigaethau ac mae'n amlwg nad ydynt yn gweithio mewn swyddi heb sgiliau yn unig.
- O ystyried cyfyngiadau data, gall amaeth (neu rai is-sectorau) fod yn agored i hyn hefyd, er na ddangosir hynny.
- Mae'n ymddangos hefyd bod y sector gofal cymdeithasol, ble mae gan y "galwedigaethau gofal" perthnasol gyflogau cyfartalog isel iawn, yn wynebu risg hefyd.

---

<sup>7</sup>Mae'r rhestr gyfatebol ar gyfer y DU yn debyg iawn, ond mewn trefn wahanol ac yn gyffredinol gyda chyfrannau uwch o weithwyr o'r UE. Mae saith o'r parau diwydiant-galwedigaeth yr un fath; tra bod gan Gymru C9 (gweithgynhyrchu-galwedigaethau elfennol), C5 (gweithgynhyrchu-galwedigaethau masnachwyr sgiliedig) a I5 (llety a gwasanaethau bwyd- galwedigaethau masnachwyr sgiliedig), mae gan y DU F5 (adeiladu-galwedigaethau masnachwyr sgiliedig), G9 (cyfanwerthu, manwerthu, atgyweirio cerbydau - galwedigaethau elfennol) ac M2 (gweithgaredd proffesiynol, gwyddonol, technegol - galwedigaethau proffesiynol).

Eto, mae'r dadansoddiad yn y Papur Gwyn ar gyfer y DU gyfan at ei gilydd yn gyson â hyn, er bod edrych ar y DU gyfan yn eu galluogi i glustnodi rhai galwedigaethau, ar lefel nad yw'n gyfanredol, allai fod yn wynebu risg benodol.

# Effaith trothwyon cyflog amgen

Mae datganiadau MAC a'r Papur Gwyn wedi cael eu beirniadu'n hallt oherwydd, fel y dangosir yn y dadansoddiad uchod, byddant yn gwahardd cyfran fawr o weithwyr o'r UE, yn cynnwys nifer na ellid eu disgrifio fel rhai â "Sgiliau isel". Mae nifer o sefydliadau busnes wedi awgrymu y byddai cymhwyso trothwy is yn arwain at lai o niwed economaidd, ac mae'r Papur Gwyn yn cynnig y posibilrwydd y gellid gweithredu trothwy gwahanol. Beth fyddai effaith gwneud hynny?

Ar gyfer Cymru, mae'r tabl isod yn dangos sut y byddai maint y grŵp a ddisgrifir uchod yn wahanol petai'r trothwy yn £20,000 yn hytrach na £30,000. Mae'r canlyniadau yn arwyddocaol wahanol - mae cyfran y gweithwyr o'r UE fyddai'n disgyn o dan y trothwy yn gostwng o bron i ddwy ran o dair, i lai na 40%. Ond, byddai'r gostyngiad yng nghyfanswm y mudo net yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd, yr amcangyfrif y byddai'n 57% ar gyfer y trothwy £30,000, yn dal yn 50%. Felly, hyd yn oed gyda'r throthwy is yma, byddai'r effeithiau yn sylweddol. Ein casgliad yw, hyd yn oed gyda throthwy sylweddol is, byddai effaith diweddu rhyddid i symud ar lif mudo i'r dyfodol yn sylweddol. Mae'r canlyniad yma yn dibynnu'n fawr ar ein tybiaethau ynghylch sut fydd y newidiadau yn effeithio ar wahanol grwpiau, gan bwysleisio pwysigrwydd sut y bydd y prosesau fisa newydd yn gweithio mewn gwirionedd yn ymarferol.

**Tabl 5: Nifer rhagamcanol y mudwyr UE ar gyfer y trothwy cyflog £20,000.**

		Nifer	% Cyfanswm	Cyflog Blynyddol Cymedrig (£)	Canolrif Cyflog Blynyddol (£)
<b>Y Deyrnas Unedig</b>					
Hyd 2017 - Medi 2018					
	Ganwyd yn y DU	16,860,748	82.6	31,662	26,728
<i>Cyrraedd</i>	UE <£20k	570,915	2.8	15,363	15,860
<i>unrhyw</i>	UE >=£20k	1,080,371	5.3	37,933	30,004
<i>flwyddyn</i>	ROW <£20k	503,483	2.5	14,920	15,600
	ROW >=£20k	1,398,411	6.9	42,474	34,996
	<b>Cyfanswm</b>	<b>20,413,929</b>	<b>100</b>	<b>31,865</b>	<b>26,520</b>
<b>Cymru</b>					
Hyd 2017 - Medi 2018					
	Ganwyd yn y DU	834,592	92.5	27,834	24,284
<i>Cyrraedd</i>	UE <£20k	19,332	2.1	11,350	15,600
<i>unrhyw</i>	UE >=£20k	29,830	3.3	34,721	30,004
<i>flwyddyn</i>	ROW <£20k	5,601	0.6	15,352	15,600
	ROW >=£20k	13,097	1.5	37,796	30,004
	<b>Cyfanswm</b>	<b>902,451</b>	<b>100</b>	<b>27,775</b>	<b>24,024</b>

Felly, byddai'r effaith ar weithlu ac economi Cymru o ganlyniad i gymhwyso trothwy o'r fath yn rhywfaint llai. Byddai hynny yn amrywio ar draws sectorau - byddai'r effaith ar weithgynhyrchu yn benodol yn cael ei liniaru, oherwydd bod gan ddau o'r tri phâr sector-galwedigaeth yn y 10 uchaf ganolrif enillion rhwng £20,000 a £30,000. Nid yw hynny'n syndod - mae'r lefel £20,000 i £30,000 yn rhan ddwys ei phoblogaeth o'r dosraniad enillion, felly byddai system gyda'r trothwy is yn llawer llai cyfyngol a gellid disgwyl y byddai'n achosi effaith sylweddol is, fel y dangosir hynny yn y tabl isod. Er hynny, byddai'r gostyngiadau yn dal yn 1.6% o weithlu Cymru, a byddai'r effaith ar GDP (a GDP y pen) yn dal yn tua tri chwarter gymaint â'r hyn a ddangosir yn y tabl uchod.

**Tabl 6: Effeithiau'r newidiadau polisi arfaethedig ar lifoedd mudo net yn y dyfodol dros gyfnod o ddeng mlynedd, trothwy cyflog £20,000.**

		<b>Mudo net (dim newid polisi)</b>	<b>Newid dros 10 mlynedd (%)</b>	<b>Newid dros 10 mlynedd (Niferoedd)</b>	<b>Cyflog Blynyddol Cymedrig (£)</b>
<b>Y Deyrnas Unedig</b>	UE <£20k	342,549	-75%	-256,912	15,363
	UE >=£20k	532,598.4	-50%	-216,074	37,933
	ROW <£20k	125,870.75	0	0	14,920
	ROW >=£20k	349,602.75	20%	69,921	42,474
	<b>Cyfanswm</b>	<b>1,350,620.9</b>	<b>-34%</b>	<b>-403,065</b>	
<b>Cymru</b>	UE <£20k	11,599.2	-75%	-8,699	11,350
	UE >=£20k	14,504.6	-50%	-7,252	34,721
	ROW <£20k	1,400.25	0	0	15,352
	ROW >=£20k	3,274.25	20%	655	37,796
	<b>Cyfanswm</b>	<b>30,778.3</b>	<b>-50%</b>	<b>-15,297</b>	

I'r gwrthwyneb, byddai trothwy cyflog uwch yn gwahardd bron yr holl weithwyr presennol o'r UE. Yn 2017, pan gyrhaeddwyd y cap fisa Haen 2, cododd y cap cyflog i dros £50,000 er mwyn cyfyngu ar y galw - byddai hynny yn taro dros 90% o'r gweithwyr o'r UE yng Nghymru.



# Fisâu Gweithwyr Dros Dro

Nid yw'r uchod yn cynnwys dadansoddiad o effaith y fisa gwaith dros dro arfaethedig, ac nid yw'r Papur Gwyn yn cynnwys digon o fanylion er mwyn ein galluogi i fodelu unrhyw effeithiau yn feintiol (nid yw'r Papur Gwyn ei hun yn cynnwys modelu o'r fath). Oherwydd na fyddai'r rhai fyddai'n dod i mewn ar hyd y llwybr yma, yn rhinwedd eu diffiniad, yn aros yn barhaol, mae'n ymddangos ei bod yn annhebygol y byddai'n newid yn sylweddol yr effeithiau ar fudo net, poblogaeth na'r ffigyrau macro economaidd a thwf ehangach a nodir uchod. Bu i lai na 5% o'r mudwyr diweddar o'r UE sydd yn byw yma ar hyn o bryd ac sydd yn ennill llai na £30,000 ddod i'r DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn egwyddor gallai cynllun o'r fath leihau'r pwysau ar sectorau a galwedigaethau penodol, yn benodol ar gyfer gwaith heb sgiliau neu waith tymhorol. Mae cynllun peilot i weithwyr tymhorol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y sector amaeth, er y gallai hwnnw fod yn llai buddiol i ffermwyr Cymru ble mae'r gofynion llafur yn amrywio llai yn ôl y tymhorau nag yn unman arall yn y DU. Ond, mae'n amheus a fyddai llwybr cwbl dymhorol yn ddeniadol i gyflogwyr neu weithwyr mewn swyddi gweithgynhyrchu sgiliedig neu led sgiliedig (ble mae angen o leiaf ychydig o hyfforddiant yn y gweithle, ac mae cynhyrchiant yn debygol o godi gyda daliadaeth swyddi) neu mewn galwedigaethau eraill megis gofal cymdeithasol. Mae yna hefyd elfennau negyddol posibl i'r hyn fyddai i bob pwrpas yn llwybr "gweithwyr gwadd", pan fyddai gan fudwyr lai o hawliau, byddai yna fwy o bosibilrwydd o ddiodesdef camdriniaeth gan gyflogwyr diegwyddor, a byddai lefel y "corddi" ac unrhyw gostau cymdeithasol cysylltiedig yn uwch.

## Gwahaniaethau rhanbarthol

Mewn papur cynharach, bu i ni archwilio'r opsiynau ar gyfer amrywio'r system fewnfudo ar gyfer Cymru (Portes a Forte, 2018). Bu i ni gasglu y byddai'n ddichonadwy cymhwyso gwahanol feini prawf (er enghraifft, cynnal mynediad agored i'r farchnad lafur yng Nghymru i bobl o'r UE, neu gymhwyso trothwy cyflog gwahanol). Ond, er bod y Papur Gwyn yn rhoi gwefus-wasanaeth i fuddiannau penodol y cenedloedd datganoledig, a rhanbarthau Lloegr, at ei gilydd mae'n gwrthod unrhyw wahaniaethu rhanbarthol, ac eithrio ymestyn y Rhestr Galwedigaethau â Phrinder efallai i Gymru a Gogledd Iwerddon (a pharhad y Rhestr Galwedigaethau â Phrinder uwch yn Yr Alban) - er bod hynny yn ei hanfod o leiaf yn derbyn bod yna achos o blaid rhyw elfen o wahaniaethu, ac efallai na fyddai un polisi cenedlaethol yn ymarferol briodol ar gyfer anghenion cenedlaethol neu ranbarthol.



# Casgliadau a goblygiadau polisi

Beth allwn ei gasgl o'r drafodaeth uchod?

- Nid oes yna dystiolaeth glir y bydd y mesurau a amlinellir yn y Papur Gwyn yn effeithio'n anghymesur ar Gymru yn nhermau economaidd. Mae gan Gymru lefelau is o fewnfudo yn gyffredinol na chyfartaledd y DU, felly ar gyfartaledd bydd yr effaith ar Gymru yn llai mewn termau absoliwt. Mae lefelau cyflogau is Cymru yn golygu y byddid yn effeithio ar gyfran uwch o fudwyr o'r UE na chyfartaledd y DU, ond nid yw'n glir a yw hynny ynddo ei hun yn ddadl gref. Mewn gwirionedd, nid yw'r effeithiau ar Gymru yn edrych yn wahanol iawn i'r effeithiau ar nifer o ranbarthau Lloegr, yn arbennig y rhai yn y gogledd; yr unig eithriad amlwg yw Llundain.
- Efallai mai mewn perthynas â phoblogaeth yn unig y mae gan Gymru achos amlwg dros gael dull gwahanol. Mae Cymru, fel gweddill y DU yn wynebu her newid demograffig, gyda phoblogaeth sydd yn heneiddio, er y bydd hynny yn cael ei liniaru'n rhannol gan gynnydd mewn oedran ymddeol. Ond, mae'r heriau yn llawer mwy aciwt yng Nghymru nag yn unman arall, gyda thwf mwy araf yn y boblogaeth drwyddi draw ond twf cyflymach ymysg y rhai dros 65oed; yn y cyfamser rhagamcanir y bydd y boblogaeth 16-64 oed yn lleihau 5% erbyn 2039. Bydd mudo llai na'r ragamcaniad yn gwaethygu'r effeithiau yma.
- Mae'r casgliadau yma yn gydnaws â'r hyn a amlinellwyd yn ein papur blaenorol (Portes a Forte, 2018) a geglodd "byddai'n anodd cyflwyno achos o blaid system fudo ranbarthol ar sail effaith tymor byr ar sectorau penodol neu leoliadau yng Nghymru. Felly, byddi'n rhaid cyflwyno achos dros unrhyw gynllun rhanbarthol (fel yn achos Yr Alban) drwy gyfeirio at "anghenion sgiliau a demograffeg hirdymor" Cymru.
- Nid yw proffil sectorau a galwedigaethau manwl yr effeithir arnynt yng Nghymru yn wahanol iawn i broffil y DU gyfan. Mae'r effaith ar weithgynhyrchu yn achos pryder penodol, ar draws lefelau sgiliau. Sectorau eraill sydd yn debygol o wynebu effeithiau yw gofal cymdeithasol (ble mae cyfran gynyddol o bobl newydd yn y sector yn y DU gyfan neu yng Nghymru, yn ddinasyddion yr UE) ac iechyd ac addysg (ble gallai nifer o ddinasyddion y DU, mewn egwyddor, ddal gymhwyso o dan y rheolau newydd, ond efallai y byddent yn gweld y DU yn lle llai atyniadol nag o dan y system rhyddid i symud). Mae hynny yn ei dro yn golygu na fydd creu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder (SOL) newydd i Gymru, er bod hynny i'w groesawu, yn debygol o wneud gwahaniaeth dramatig, oherwydd yn achos y rhan fwyaf o'r galwedigaethau, mae'r SOL yn debygol o fod yn debyg iawn yng Nghymru a Lloegr.
- Nid oes llawer o le i gredu y byddai'r "fisa gweithwyr dros dro" a amlinellwyd yn y DU yn gwneud llawer i liniaru'r effeithiau yn gyffredinol nac yn y sectorau penodol sydd

yn wynebu'r risg fwyaf. Hefyd, mae'r potensial o achosi canlyniadau anfwriadol ac annymunol sylweddol yn bodoli.

- Byddai gostwng y trothwy cyflog i £20,000 yn lliniaru ychydig ar yr effeithiau ar Gymru (a'r DU gyfan) ond byddent yn dal yn sylweddol.

Gyda'i gilydd mae hynny yn awgrymu, ar seiliau dadansoddol a phragmatig, wrth ymateb i'r Papur Gwyn y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar bwysu am drothwy cyflog is ar gyfer y DU gyfan. Mae'r amcan hon yn cael ei chefnogi gan amrywiaeth eang o sefydliadau busnes yn ogystal â lefelau eraill o lywodraeth ac (yn ôl yr adroddiadau) aelodau'r Cabinet. Oherwydd bod y Papur Gwyn yn dweud yn bendant bod y trothwy cyflog yn destun ymgynghoriad, mae'r gobaith o lwyddo yn ymddangos yn uwch nag ar gyfer dulliau penodol ar gyfer Cymru. Felly mae'n fwy tebygol o ennill cefnogaeth. Ond ni fydd hynny ynddo ei hun yn atal effeithiau negyddol sylweddol. Bydd yn bwysig sicrhau hefyd bod y broses fisa ar gyfer y rhai sydd dros y trothwy cyflog yn gyflym, effeithlon a fforddiadwy.

# Cyfeiriadau

Llywodraeth EM (2018). **The UK's future skills-based immigration system**. Cafwyd o:  
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/766465/The-UKs-future-skills-based-immigration-system-print-ready.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766465/The-UKs-future-skills-based-immigration-system-print-ready.pdf)

Y Pwyllgor Cynghori Mudo (2018). **EEA migration in the UK: Final report**. Cafwyd o:  
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/741926/Final\\_EEA\\_report.PDF](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/741926/Final_EEA_report.PDF)

Portes, J. a Forte, G. (2018) **Atodiad C: Immigration Policy After Brexit**. Yn, Llywodraeth Cymru, *Brexit and Fair Movement of People*. Cafwyd o:  
<https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/brexit-and-fair-movement-of-people.pdf>

## Manylion yr Awduron

Mae **Jonathan Portes** yn Athro Economeg a Pholisi Cyhoeddus yng Ngholeg y Brenin, Llundain.

Mae **Giuseppe Forte** yn fyfyrwr MPhil yn Adran Economeg, Prifysgol Rhydychen.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â

**Dan Bristow**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

**OGL** Mae'r adroddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored